

Rhagfyr 9ed, 2021

Fel pentrefwraig sydd wedi byw yn Llanedi ar hyd fy oes, ysgrifennaf i laesu fy marn am Fferm Solar Brynrhyd .

Mae Llanedi yn bentref sydd wedi tyfu o fod yn hamled gwledig iawn, i bentref poblogaidd iawn dros y 30 mlynnydd diwetha am fod perchnogion yr holl dai preifat am leoliad prydferth i fyw a'r mantais o fod 5 munud i draffordd yr M4.

Pwy sydd am weld gwerth eu tai yn cael eu dibrysio gan olygfa mor hyll? Pwy fydd am ddod i fyw yn y pentref yn y dyfodol? Pwy fydd am ddod i aros i'r bythynnod gwyliau? NID y datblygwyr, rwy'n siwr o hynny. Byddan nhw'n ddigon pell o'r hagrach.

Mae'r golygfeydd a werthfawrogwn o ddydd i ddydd ar dir sydd wedi'i ffermio'n ofalus am gael eu difetha'n llwyr ac am byth, dan 287 cyfer o baneli solar salw na fyddai neb yn ei iawn bwyll yn gallu eu galw'n ased i unrhyw le gwledig yn Sir Gaerfyrddin.

Fe fydd y paneli solar 'grotesque' yma yn sarnu ar harddwch naturiol y pentre a'r golygfeydd a werthfawrogwn yn troi'n fôr o fetal a gwydr di-enaid.

Mae Llanedi wedi bod yn ardal wledig amaethyddol erioed a'r tir wedi'i drin yn dda a chyfoethog gan sawl cenhedlaeth o fferwmyr y pentref.

Bydd aceri o'r tir amaethyddol , coed a pherthi'n diflannu a'r bywyd gwyllt, y Barcud Coch, y twrch daear a'r cadnoid yn cael eu herlid o ardal y Ffarm Solar.

Beth yw'r rhesymeg am ddiffetha tir amaethyddol da pan mae aceri o dir diffaeth ar gael? Pam lladd dyfodol amaethyddol ffermydd lleol? Beth am fferwmwyr ifanc y dyfodol?

Yn waeth na hynny, bydd Rhandir Aur, man uchaf y pentref a golygfa 360 o'r rhan hyfryd yma o Sir Gaerfyrddin, i'w orchuddio â'r paneli os bydd y datblygiad yn cael yr hawl i fynd yn ei flaen.

Dros y cyfnodau clo ,cafwyd budd i'n hiechyd meddwl wrth gerdded, rhedeg a seiclo yr heol gefn sydd o dan sylw- bydd y golygfeydd ar hyd hon, Heol Troeon Bach, byth yr un peth os caniateir datblygu'r 'monstrosity' ma .

Mae palmentydd ar hyd y brif ffordd yn brin iawn felly, Heol Troeon Bach sy'n mynd i gael ei heffeithio fwyaf. Fel cerddwraig cyson ar hyd yr heol, bydd paneli solar i'w gweld ar hyd y wac o Fferm Pentrehardd hyd at ffin y ffarm solar sy'n bodoli eisoes ger Tycroes.

Datblygwyr sydd yn byw digon pell o Lanedi a heb amgyffred, dybiwn i o fyw AC EISIAU BYW ar bwys aceri o wydr a metal sy'n gwthio agenda'r Ffarm Solar. [NOT IN MY BACK YARD](#) byddai'u cwyn pendant hwythau hefyd .

Does neb yn gwybod beth bydd golwg a safon y tir o dan y paneli mewn 40 o flynyddoedd pan bydd y ffarm solar yn cael ei di-gomisiynnu. Go brin bydd modd adfer y tir i'r safon yw e ar hyn bryd.

Os caniateir i'r Fferm Solar i gael ei ymestyn, o'r hyn sydd gyda ni'n barod o fewn y pentref, Duw a wyr faint yn fwy o aceri bydd yn diflannu os gynnigir y pris iawn i weddill tirlfeddiannwyr yr ardal.

Dewch i Lanedi, edmygwch ein pentref hardd, cyn i chithau hefyd yng Nghaerdydd, rhoi sêl eich bendith i'r fath ddatblygiad.

Yn gywir,

Meinir Morgan.